# COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL

# BWRDD CABINET YR AMGYLCHEDD, ADFYWIO A GWASANAETHAU STRYDLUN

# DYDD GWENER, 9 CHWEFROR 2024

**Cabinet Members:**

Cynghorwyr: W.F.Griffiths a/ac S.Jones (Cadeirydd)

**Swyddogion yn bresennol:**

S.Brennan, D.Griffiths, M.Roberts, J.Stevens, J Davies, O.Gavigan, K.Lewis, C.Saunders, B.Suddell, L.Willis, T.Rees a/ac C.Plowman

**Gwahoddedigion craffu:**

Cynghorwyr: S.Pursey a/ac T.Bowen

---

## 1. PENODI CADEIRYDD

Cytunwyd i benodi'r Cynghorydd S Jones yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

## 2. CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Eglurwyd bod eitem 15 o'r agenda a gylchredwyd wedi'i gohirio oherwydd yr angen i gasglu rhagor o wybodaeth.

## 3. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

## 4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Ionawr 2024 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod cywir.

5. **BLAENRAGLEN WAITH**

Nodwyd y Flaenraglen Waith.

6. **AMSER CWESTIYNAU CYHOEDDUS**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

7. **BARGEN DDINESIG BAE ABERTAWE - Y DIWEDDARAF AM BROSIECTAU A ARWEINIR GAN GASTELL-NEDD PORT TALBOT (CEFNOGI ARLOESEDD A THWF CARBON ISEL A CHARTREFI FEL GORSAFOEDD PŴER)**

**Penderfynwyd:**

Nodi’r adroddiad.

8. **RHESTR O GONTRACTWYR CYMERADWY**

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r Asesiad Effaith Integredig, fod y Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy yn cael ei newid fel a ganlyn:

Cwmnïau i'w hychwanegu at y Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy:

| Cwmni | Categori |
|---|---|
| A&J Arborists Ltd (A077) | 101 |
| B&W Contracting Services Ltd (B045) | 41,42,43,44 |
| Brandon Hire Station (H030) | 2 |

Cwmnïau i'w cynnwys ar y Rhestr ar gyfer categorïau ychwanegol:

| Cwmni | Categori |
|---|---|
| Neath Construction Ltd (N011) | 12,13 |

Gofynnodd cwmnïau am gael gwared ar gategorïau nad ydynt bellach yn berthnasol i gwmpas y gwaith:

| Cwmni | Categori |
|---|---|
| Swansea Drains Ltd T/A Metro Rod (S085) | 5,7 |

Cwmnïau i'w tynnu oddi ar y Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy:

| **Cwmni** | **Categori** |
|---|---|
| Groom Property Maintenance Ltd (G022) | 15,16,17,19,20,22 |
| Machinery Movement Wales Ltd (M049) | 88,96,97 |
| Flair Electrical Engineering Ltd (F003) | 41,42,43,44,68 |
| CCTV Access Control Ltd (C066) | 3,47,48 |
| EEL Holdings Ltd prev. Adams Environmental Ltd (A032) | 111 |
| R C Cutting & Co. (C073) | 66 |
| Gerald Davies Ltd (D015) | 71,72,75,77,84,106 |

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Sicrhau bod y Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy yn gyfoes, a chyhyd ag y bo modd, sicrhau proses gaffael gystadleuol. Caiff yr argymhellion hyn eu mabwysiadu at ddiben darparu Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy ar gyfer gwahoddiad i dendro yn y categori perthnasol.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau a ddaeth i ben am 9am ddydd Mawrth, 13 Chwefror 2024.

9. **GORCHYMYN RHEOLEIDDIO TRAFFIG: GORCHYMYN EAGLE STREET A BROAD STREET, PORT TALBOT (DIRYMIAD) (AROS CYFYNGEDIG) A (DEILIAID HAWLEN BARCIO I BRESWYLWYR) 2023**

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r Asesiad Effaith Integredig:

- Bod y gwrthwynebiadau i Orchymyn Eagle Street a Broad Street, Port Talbot (Dirymu) (Aros Cyfyngedig) a (Deiliaid Hawlen Barcio i Breswylwyr) 2023 (fel y nodwyd yn Atodiad A i'r adroddiad a

gylchredwyd) yn cael eu gwrthod a bod y cynllun yn cael ei roi ar waith fel y'i hysbysebwyd.
- Bod y gwrthwynebwyr yn cael eu hysbysu o'r penderfyniad yn unol â hynny.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Roedd angen y gorchmynion rheoleiddio traffig arfaethedig i gydbwyso'r materion parcio rhwng y cyhoedd a phreswylwyr, ac i atal parcio diwahaniaeth er diogelwch ar y ffyrdd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau a ddaeth i ben am 9am ddydd Mawrth, 13 Chwefror 2024.

10. **GORCHYMYN RHEOLEIDDIO TRAFFIG: GORCHYMYN GOLWG Y MÔR, ABERAFAN, PORT TALBOT (GWAHARDD AROS, LLWYTHO A DADLWYTHO AR UNRHYW ADEG) 2023**

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r Asesiad Effaith Integredig:
- Bod y gwrthwynebiadau i Orchymyn Golwg y Môr, Aberafan, Port Talbot (Gwahardd Aros, Llwytho a Dadlwytho ar unrhyw adeg) 2023 (fel y nodwyd yn Atodiad A i'r adroddiad a gylchredwyd) yn cael eu gwrthod a bod y cynllun yn cael ei roi ar waith fel y'i hysbysebwyd.
- Bod y gwrthwynebwyr yn cael eu hysbysu o'r penderfyniad yn unol â hynny.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Roedd angen y gorchymyn rheoleiddio traffig i fynd i'r afael â'r parcio diwahaniaeth er diogelwch ar y ffyrdd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau a ddaeth i ben am 9am ddydd Mawrth, 13 Chwefror 2024.

11. **RHAGLEN CAFFAEL CERBYDLU CERBYDAU A PHEIRIANNAU TRYMION 2024/25**

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r Asesiad Effaith Integredig:

- Bod y Rhaglen Caffael Cerbydau/Peiriannau arfaethedig ar gyfer 2024/25, y'i nodir yn atodiad A o'r adroddiad a gylchredwyd, yn cael ei chymeradwyo
- Bod Awdurdod Dirprwyedig yn cael ei roi i'r Pennaeth Gwasanaeth mewn ymgynghoriad ag Aelod y Cabinet dros Gynllunio Strategol, Trafnidiaeth a Chysylltedd, i brynu unrhyw gerbydau er mwyn mwyafu argaeledd arian grant a all fod ar gael i gynorthwyo gyda chost prynu'r cerbydau.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Bydd y cerbydau a'r peiriannau trwm newydd naill ai’n rhai heb unrhyw allyriadau, yn rhai hybrid neu drydan neu o safon Ewropeaidd uwch, a fydd yn galluogi'r cerbydlu i fod yn fwy effeithlon o ran tanwydd drwy ddefnyddio llawer llai o danwydd a lleihau ôl troed carbon y Cyngor drwy leihau allyriadau.

Mae Gwasanaeth y Cerbydlu ar y cyd â Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru wedi cynnal adolygiad o Gerbydlu'r Cyngor i gael gwybod am y defnydd ohonynt o fewn is-adrannau a ble'r oedd cyfleoedd i gyflwyno cerbydau a pheiriannau trydan llawn a rhai eraill heb allyriadau i leihau ymhellach allyriadau carbon y Cyngor yn unol â Chynllun Trawsnewid Cerbydlu'r Cyngor.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau a ddaeth i ben am 9am ddydd Mawrth, 13 Chwefror 2024.

12. **GORCHYMYN DIOGELU MANNAU CYHOEDDUS, TRAETH A PHROMENÂD ABERAFAN**

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i gam cyntaf yr Asesiad Effaith Integredig, fod y Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus, a nodir yn Atodiadau H a I o'r adroddiad a gylchredwyd, yn cael eu rhoi ar waith cyn 1 Mai 2024.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Sicrhau bod mesurau rheoli cŵn priodol yn parhau fel y bo'n briodol ar Draeth a Phromenâd Aberafan.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau a ddaeth i ben am 9am ddydd Mawrth, 13 Chwefror 2024.

13. **EITEMAU BRYS**

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

14. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD - GWAHARDD Y CYHOEDD**

Fel yr amlygwyd yn flaenorol yng Nghofnod Rhif 2, gohiriwyd yr adroddiad preifat a nodwyd yn eitem 15 yr agenda. Felly, nid oedd angen symud i sesiwn breifat.

15. **BWRIAD I WAREDU TIR DATBLYGIAD PRESWYL YM MLAENBAGLAN (YN EITHRIEDIG DAN BARAGRAFF 14)**

**Penderfyniad:**

Bod yr adroddiad yn cael ei ohirio oherwydd yr angen i gasglu rhagor o wybodaeth.

**CADEIRYDD**